Canllawiau Ariannu

Diweddarwyd: Hydref 2024:

Nod y ddogfen hon yw dweud wrthych am ein nod, ein gwerthoedd a'n meini prawf ariannu fel y gallwch benderfynu a ydych chi a'ch gwaith yn gymwys i gael grant. Darllenwch yr holl wybodaeth o fewn y canllawiau hyn gan gynnwys y meini prawf cyffredinol, yn ogystal â'r meini prawf categori-benodol.

Os hoffech chi wneud cais, edrychwch ar ein gwefan i gael rhagor o wybodaeth am y grantiau rydym ni'n eu gwneud a sut i wneud cais. Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau ychwanegol, mae croeso i chi gysylltu ag aelod o'r tîm.

Cynnwys

Ein nod, ein gwerthoedd a'n datganiad ar Amrywiaeth, Tegwch a Chynhwysiant…… Tudalen 2

Meini prawf sy'n berthnasol i'n holl gyllid……..……... Tudalen 3

- Yr hyn yr ydym yn chwilio amdano mewn cais

Ein categorïau……..……... Tudalen 5

- Celfyddydau: Creawdwyr a Churaduron
- Amgylchedd: Pobl a'r Blaned
- Gweithredu Cymdeithasol: Hyrwyddo Newid

Yr hyn nad ydym yn ei ariannu……. Tudalen 8

Cwestiynau cyffredin……..……..... Tudalen 9

Sut i wneud cais……..……..... Tudalen 14

- Faint alla i wneud cais amdano?
- Cymorth mynediad
- Cyngor pellach

1. Ein nod, ein gwerthoedd a'n datganiad ar Amrywiaeth, Tegwch a Chynhwysiant

Ein nod
Ein nod yw hybu lles pobl, cymdeithas a'r byd naturiol. Wrth roi grantiau, mae hyn yn golygu ariannu gwaith o arwyddocâd cenedlaethol yn y celfyddydau, yr amgylchedd a gweithredu cymdeithasol. Credwn y gall y meysydd hyn wneud gyfraniad pwysig i les.

Ein gwerthoedd
Mae perthnasoedd yn bwysig i ni ar draws pob agwedd ar ein grantiau, ac yn y ffyrdd yr ydym ni'n gweithio gydag eraill. Mae ein gwerthoedd yn arwain ac yn adlewyrchu sut rydym ni'n gweithio. Rydym yn ariannwr **ymatebol**, yn gwrando ac yn ymateb i'r hyn mae ymgeiswyr a'n rhwydwaith rhanddeiliaid ehangach o'r farn sy'n bwysig.

Rydym ni wedi datblygu canllawiau ariannu, sy'n ein galluogi i fod yn **graff** yn ein penderfyniadau ynghylch pwy a beth i'w gefnogi.

Rydym ni'n gwerthfawrogi ein holl berthnasoedd rhanddeiliaid, gan gynnwys sefydliadau rydym ni'n eu hariannu a'r rhai sy'n gwneud cais i ni, ac rydym ni'n ceisio cael **agwedd bersonol**. Mae ein Hymddiriedolwyr yn cymryd rhan ar bob cam o gais, ac rydym ni bob amser yn cyfarfod ag ymgeisydd cyn i grant gael ei roi.

Mae'n well gennym ni fod yn **gysylltiedig** ac rydym ni mewn cysylltiad rheolaidd â chydweithwyr a phartneriaid perthnasol yn y byd buddsoddi ac elusennol. Rydym ni hefyd yn hoffi cadw mewn cysylltiad â'r sefydliadau rydym ni'n eu hariannu, gan eu cynnull a'u cysylltu gyda'r naill a'r llall o bryd i'w gilydd.

Rydym ni'n barod i fod yn **hyblyg**, a gallwn fentro y tu allan i'n meini prawf ariannu os credwn y byddai dull gweithredu gwahanol yn fwy effeithiol.

Ein datganiad ar Amrywiaeth, Tegwch a Chynhwysiant

Credwn fod yn rhaid i egwyddorion amrywiaeth, tegwch a chynhwysiant (DEI) arwain popeth a wnawn, a gellir crynhoi hyn fel: recriwtio, cadw a datblygu staff ac Ymddiriedolwyr; rheoli ein gwaddol sylfaenol; rhoi grantiau; ein cyfathrebu mewnol ac allanol; a'n dadansoddiad o darddiad ein cyfoeth trwy ein Prosiect Hanes.

Rydym ni'n cydnabod bod y methiant i flaenoriaethu a gwella arferion DEI o fewn dyngarwch sefydliadol a'r sectorau elusennol a dyngarol ehangach wedi arwain at ddosbarthu cyllid yn annheg. Rydym ni wedi ymrwymo i arferion amrywiol, teg a chynhwysol drwy gydol ein grantiau, ac yn cael ein cefnogi i ystyried sut i wneud hyn drwy ein dysgu a'n myfyrio mewnol ein hunain a mentrau allanol fel y Sgôr Ymarfer Sylfaen a Safon Data DEI (sy'n cynnwys ffurflen yr ydym ni'n gofyn i sefydliadau ei llenwi pan fyddant yn gwneud cais), yn ogystal â'r dysgu a rennir gan sefydliadau fel Cymdeithas y Sefydliadau Elusennol ac IVAR. Mae ein Cynllun Atebolrwydd DEI yn gyfrifoldeb ar y cyd i'r Cyfarwyddwr a Bwrdd yr Ymddiriedolwyr (sy'n cynnwys Ymddiriedolwr arweiniol ar DEI) ac mae'n cael ei adolygu'n barhaus, a gofynnir i'r Bwrdd gymeradwyo cam nesaf ein gwaith o leiaf unwaith y flwyddyn. Nod y Cynllun yw sicrhau mwy o degwch a gwell arferion cyllido drwy ddatblygu ac ymgorffori

dealltwriaeth gyffredin ar draws y sefydliad o DEI a chymhwyso hyn yn ein holl waith. Gallwch ddarllen ein Polisi DEI yn llawn ar ein gwefan yma.

2. Meini prawf sy'n berthnasol i'n holl gyllid

Mae ein strategaeth bresennol yn dod i ben yn 2025, ac rydym yn cynnal adolygiad strategol i gynllunio ar gyfer 2025 ymlaen. Nid oes unrhyw gynlluniau i gau fel rhan o'r adolygiad hwn. Fodd bynnag, fel gydag unrhyw strategaeth newydd, efallai y bydd rhai newidiadau i'n blaenoriaethau a'n meini prawf ariannu. Bydd y newidiadau hyn yn cael eu nodi ymlaen llaw, a byddwn yn pontio i unrhyw newidiadau o'r fath i linell amser y cytunwyd arni ac sydd ar gael yn gyhoeddus gyda chanllawiau clir ar sut yr ydym yn dymuno lleihau unrhyw darfu ar ymgeiswyr presennol a darpar ymgeiswyr.

Rydym ni'n derbyn llawer mwy o geisiadau nag y gallwn ni eu cefnogi, sy'n golygu ein bod yn tueddu i gymhwyso ein holl feini prawf yn eithaf llym wrth ystyried ceisiadau. Yn 2023/24, cawsom 462 o geisiadau. Roedd 309 yn gymwys, a gwahoddwyd 45 ohonynt i'r ail gam. O'r ceisiadau ail gam hyn, llwyddodd 43 yn y pen draw, gan gynrychioli cyfradd llwyddiant o 13% o'r cais cam cyntaf a 96% o'r cais ail gam. Mae hyn yn adlewyrchu ein nod o fynd â'r ceisiadau hynny gyda'r cyfle gorau o lwyddo drwodd i'r ail gam. Rydym ni'n chwilio am waith sy'n cael effaith fawr ac sy'n sicrhau newid cadarnhaol neu fanteision hirdymor. Gall hyn gynnwys dulliau gweithredu profedig yn ogystal â ffyrdd newydd o weithio.

Gofynnwn i'r sefydliadau sy'n gwneud cais i ni fodloni'r ddau faen prawf canlynol, sy'n berthnasol i bob un o'n tri chategori ariannu:

1 **Maint a ffurf sefydliadol**
Rydym ni'n blaenoriaethu elusennau sydd wedi'u cofrestru yn y DU gydag incwm rhwng £100,000 a £10m. Mae'r ffocws hwn yn ein galluogi i ddefnyddio ein gallu a'n hadnoddau drwy gefnogi sefydliadau sefydledig a phrofiadol yn y gwaith maen nhw'n ei wneud. Oherwydd y lefelau uchel o alw am ein cyllid gan sefydliadau sy'n bodloni ein holl feini prawf cymhwysedd sylfaenol, anaml y byddwn yn ariannu sefydliadau sydd y tu allan i'r ystod incwm a ffefrir hon. Am fwy o fanylion, gweler ein Cwestiynau Cyffredin.

2 **Arwyddocâd cenedlaethol**
Rydym ni am i'n cronfeydd wneud gwahaniaeth, gydag effaith mor eang â phosibl, i sefydliadau sy'n arwyddocaol yn genedlaethol. Gall hyn olygu creu celf o'r safon uchaf; gweithio ar draws ardal ddaearyddol eang; neu rannu ac ehangu mentrau llwyddiannus. Rydym ni hefyd yn cydnabod y gallai fod angen newid y system, a thrwy ddylanwadu ar bolisi, ymgyrchu neu fabwysiadu dulliau eraill mae manteision mwy pellgyrhaeddol a thymor hwy yn bosibl.

Gall arwyddocâd cenedlaethol edrych yn wahanol ym mhob un o'n categorïau:

- *Celfyddydau* – mae gan greu gwaith newydd ynddo'i hun y potensial i greu gwaddol cenedlaethol neu ryngwladol i ysbrydoli eraill. Mae defnyddio ansawdd uchel fel maen prawf allweddol wedi'i gynllunio i gryfhau ac ehangu effaith, gan ddangos arwyddocâd ar draws y DU gyfan. Gall partneriaethau, boed yn draws-gelfyddydol, yn draws-sector neu'n ddaearyddol, hefyd wella'r arwyddocâd hwn, a gall teithio ac allbwn digidol gyfrannu at ôl troed cenedlaethol.
- *Yr amgylchedd*– gall rhai rhywogaethau, cynefinoedd a/neu ecosystemau fod ag arwyddocâd cenedlaethol oherwydd eu prinder cymharol a/neu'r manteision

('gwasanaethau ecosystem') maen nhw'n eu darparu i bobl. Efallai y bydd rhai sefydliadau mewn marchnad unigryw genedlaethol oherwydd mai ychydig o sefydliadau eraill sy'n cwmpasu'r maes thematig maen nhw'n arbenigo arno. Gall mentrau sydd â chyrhaeddiad cenedlaethol neu gyrhaeddiad o fewn y gwledydd sy'n rhan o'r DU fod o bwys cenedlaethol hefyd. At hynny, gellir ystyried bod mentrau mwy lleol sydd â photensial clir ar gyfer eu dyblygu neu y gellir eu datblygu i lefel gwlad hefyd yn arwyddocaol yn genedlaethol. Rydym ni hefyd o'r farn bod bioamrywiaeth Tiriogaethau Tramor y DU o bwysigrwydd cenedlaethol a/neu ryngwladol.

- *Gweithredu Cymdeithasol* – rydym ni'n ceisio cefnogi sefydliadau y mae eu gwaith wedi'i wreiddio mewn profiad ymarferol, yn aml mewn mwy nag un ardal, ac sy'n arwyddocaol yn genedlaethol oherwydd gellir cymhwyso eu gwaith ar lefel Lloegr, yr Alban, Cymru a/neu Ogledd Iwerddon.

Mae rhagor o wybodaeth am ein dull o ariannu gwaith yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn yr adran Cwestiynau Cyffredin, yn ddiweddarach yn y ddogfen hon.

Yr hyn yr ydym yn chwilio amdano mewn cais:

Gofynnwn i bob cais ddefnyddio'r penawdau fel y nodir ar ein tudalen 'Sut i ymgeisio'. Yn eich cais, byddwn hefyd yn edrych am y canlynol:

- *Effeithiolrwydd ac effaith* – gallai hyn olygu dealltwriaeth dda o'r anghenion sy'n cael eu diwallu a'r ffordd orau o fynd i'r afael â nhw; ymwybyddiaeth o sut mae eich gwaith yn ychwanegu gwerth ac yn ymwneud â gwaith pobl eraill ac yn ei ategu; systemau effeithiol i fonitro ac adolygu cynnydd; diwylliant o ddysgu, myfyrio a gwella; a bod yn effro i gyfleoedd i ehangu effaith.
- *Llywodraethu a rheoli cryf* – sefydliad amrywiol a chynrychioliadol sydd â chymwysterau da ac arweinyddiaeth gref ac ysbrydoledig; dealltwriaeth a goruchwyliaeth drylwyr o gyllid ar draws y Bwrdd a'r tîm arweinyddiaeth; ac ymwybyddiaeth o gryfderau a gwendidau'r sefydliad.
- *Rheolaeth ariannol* - Dylai pob ymgeisydd ddangos angen am gyllid ac ni ddisgwylir iddynt feddu ar gronfeydd gormodol am ddim, h.y. cronfeydd heb eu gwario, heb gyfyngiadau neu arian dynodedig, oni bai bod rheswm clir wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd dros wneud hynny. Rydym yn disgwyl i ymgeiswyr gael polisi cronfeydd wrth gefn sy'n cael ei ddilyn.
- *Cydweithredol* – gallai hyn olygu sefydliadau sydd wedi'u cysylltu'n dda, deall sut maen nhw'n ffitio o fewn eu byd, a gweithio'n dda gydag eraill sy'n berthnasol i'r gwaith sy'n cael ei wneud.
- *Cyd-fynd â meini prawf categori* - Rydym yn argymell eich bod yn canolbwyntio ar un o'n categorïau yn eich cais, gan fod gan bob un feini prawf ychydig yn wahanol. Gwelwn fod y rhai sy'n ceisio gwneud cais ar draws sawl categori yn tueddu i gyflwyno achos gwannach na'r rhai sy'n gwneud cais i un.

Mae **cyllid craidd** wedi bod yn arwyddnod ac yn ddewis i ni ers amser maith, ond rydym ni'n gallu, ac yn gwneud hynny weithiau, wneud grantiau ar gyfer prosiectau neu raglenni lle mae'r ymgeisydd yn gofyn am hyn am eu rhesymau gweithredol eu hunain, neu os ydynt dros ein trothwy o £10m. Cyllid craidd yw cyllid sy'n mynd tuag at gostau craidd cyflawni gwaith sefydliad. Gallai'r costau hyn gynnwys:

- cyflogau, hyfforddiant a threuliau staff
- costau a gweithrediadau rhedeg o ddydd i ddydd
- monitro a gwerthuso
- cyfathrebu ac arloesi digidol.

Os yw'r rhan fwyaf neu'r cyfan o'r gweithgarwch mae eich sefydliad yn ymgymryd ag ef yn cyd-fynd â chanllawiau'r categori perthnasol, gallwch wneud gais am gyllid craidd heb gyfyngiad. Fodd bynnag, os oes agweddau ar eich gwaith nad ydynt yn berthnasol, gofynnwn i chi nodi sut y byddai'r arian yn cael ei gyfeirio a sut y bydd hyn yn cysylltu i'r categori dan sylw

3. Ein categorïau

CELFYDDYDAU: Creawdwyr a Churaduron

Ein nod
Credwn fod gan y celfyddydau a diwylliant y potensial i gyfoethogi a thrawsnewid bywydau, ac rydym yn cydnabod ei werth cynhenid a'i effeithiau unigryw. Byddwn yn ariannu sefydliadau sy'n meithrin, yn magu ac yn comisiynu'r bobl hynny sy'n gwneud ac yn curadu gwaith.

Yr hyn rydyn ni'n ei ariannu
Rydym yn canolbwyntio ein cyllid Celfyddydau o dan ddau bennawd ar wahân:

1. ***Creawdwyr yn y celfyddydau perfformio*** – rydym yn canolbwyntio ar greu gwaith o'r safon uchaf o bwys cenedlaethol, drwy ariannu sefydliadau sy'n cydweithio â, comisiynu neu gefnogi artistiaid fel arall i greu gwaith newydd neu wedi'i ail-ddychmygu. Rydym yn blaenoriaethu ymgeiswyr o'r tu allan i'r brifddinas, ond rydym yn ystyried y rhai sydd wedi'u lleoli yn Llundain lle byddai'r cynnig yn dod â manteision sylweddol mewn mannau eraill. *(Gall sefydliadau wneud cais ar unrhyw adeg o dan y pennawd hwn.)*
2. ***Curaduron amgueddfeydd ac orielau*** – ein nod yw cryfhau'r sefydliadau hynny sy'n canolbwyntio ar ddefnyddio sgiliau curadurol i ddenu cyhoedd ehangach. Rydym yn blaenoriaethu ymgeiswyr o'r tu allan i'r brifddinas, ond rydym yn ystyried y rhai sydd wedi'u lleoli yn Llundain lle byddai'r cynnig yn dod â manteision sylweddol mewn mannau eraill. *(Mae hon yn rhaglen flynyddol gyda'i chanllawiau ariannu a'i phroses gwneud penderfyniadau ei hun; gweler ein gwefan am y wybodaeth ddiweddaraf*.)

Yr hyn rydyn ni'n chwilio amdano yn y celfyddydau perfformio:
Sefydliadau sy'n gwneud rhai o'r canlynol:

- sefydliadau sydd â gwaith newydd neu wreiddiol wrth eu gwraidd
- hanes o gynhyrchu gwaith sy'n ennyn diddordeb, yn cael ei dderbyn yn dda ac o ansawdd uchel, a allai gynnwys sefydliadau a allai gael eu hystyried yn arweinwyr o fewn eu ffurf gelfyddydol
- syniadau a modelau gweithio cyffrous, ffres a llawn dychymyg
- gwaith rhanbarthol sy'n cael ei werthfawrogi a'i gydnabod yn genedlaethol (yn bennaf) ac yn rhyngwladol

- integreiddio talent newydd a datblygu artistiaid i'r rhaglen waith artistig (h.y. nid datblygu unigolyn yw prif ffocws neu unig ffocws y sefydliad)
- dealltwriaeth o gynulleidfaoedd gwirioneddol a darpar gynulleidfaoedd a sut mae'r cynlluniau artistig yn berthnasol iddynt.

YR AMGYLCHEDD: Pobl a'r Blaned

Ein nod
Credwn fod amgylchedd iach yn hanfodol i les a gwytnwch pobl a natur. Ein nod yw sicrhau mwy o gytgord rhwng pobl a natur, drwy ddiogelu, adfer a defnyddio'r byd naturiol mewn ffordd gynaliadwy. Mae gennym ddiddordeb mewn sefydliadau sy'n deall cyd-ddibyniaeth pobl a natur ac sy'n cymhwyso hyn yn eu meddwl a'u harferion. Yn aml, y system sy'n gorfod newid, felly byddwn ni hefyd yn cefnogi'r rhai sy'n gweithio i ddylanwadu ar y llywodraeth, busnesau,systemau ariannol ac economaidd, a chymdeithas sifil drwy waith polisi, eiriolaeth ac ymgyrchu.

Yr hyn rydym yn ei ariannu:
Rydym yn canolbwyntio ein cyllid Amgylchedd o dan ddau brif bennawd:

1. ***Y Cefnfor*** — diogelu, adfer a defnydd cynaliadwy o'r cefnfor, trwy ardaloedd gwarchodedig a reolir yn fwy ac yn effeithiol ac yn deg; adfer cefnforoedd; ymgysylltu â chymunedau arfordirol; lleihau gorbysgota a mynd i'r afael ag effeithiau niweidiol eraill gweithgarwch dynol ar, ac yn y môr, megis llygredd.

2. ***Tir a dyfroedd croyw*** — adeiladu ecosystemau iachach mewn amgylcheddau trefol neu wledig, trwy reolaeth effeithiol a chynaliadwy gan gynnwys gweithredu cadwraeth, adfer ac ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth; cysylltu cynefinoedd tameidiog; a gwaith ar raddfa tirwedd i ddiogelu ac adfer lleoedd o arwyddocâd arbennig. Byddwn ni hefyd yn cefnogi gwaith i leihau neu atal effeithiau niweidiol gweithgareddau dynol, yn enwedig newid yn yr hinsawdd, a llygredd aer, tir a dŵr o gemegau a llygryddion eraill.

Rydym ni'n canolbwyntio ar y DU a dyfroedd y DU. Fodd bynnag, rydym ni hefyd yn awyddus i gefnogi gwaith tir a morol yn Nhiriogaethau Tramor y DU (UKOTs). Ar gyfer gwaith yn yr UKOT, rydym ni'n croesawu ceisiadau gan elusennau'r DU sy'n gweithio mewn partneriaeth â chyrff anllywodraethol lleol yn y Diriogaethau ac elusennau sydd wedi'u lleoli yn yr UKOT. Gall elusennau yn y DU wneud cais naill ai'n uniongyrchol neu drwy gyfrwng elusen yn y DU. I gael rhagor o fanylion am hyn, gweler y Cwestiynau Cyffredin, yn benodol y cwestiwn: 'Ydych chi'n gwneud grantiau dramor?'.

Yr hyn rydyn ni'n edrych amdano:
Sefydliadau sy'n gwneud rhai o'r canlynol:

- ceisio gwella'r amgylchedd naturiol
- deall arwyddocâd cynefinoedd ar gyfer lles dynol, yn ogystal ag effaith pobl ar natur
- chwilio am atebion cynaliadwy drwy sicrhau bod bywoliaeth ac anghenion economaidd cymunedau lleol yn cael eu hintegreiddio yn eu meddwl a'u strategaeth
- cydweithio
- ceisio defnyddio dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth
- mynd i'r afael ag achosion sylfaenol yn ogystal â symptomau.

GWEITHREDU CYMDEITHASOL: Hyrwyddo Newid

Ein nod
Ein nod yw helpu i greu cymdeithas gynhwysol lle gall pawb ffynnu, drwy gefnogi sefydliadau sy'n gweithio i greu newidiadau cadarnhaol ar lefel yr holl systemau sydd o fudd i gymdeithas yn ehangach.

Credwn mai pobl sy'n gweithio gyda'i gilydd sy'n creu newid. Mae gennym ni ddiddordeb mewn sefydliadau gyda hanes sy'n mynd i'r afael â rhaniadau ac annhegwch, ac sy'n dod ag unigolion, sefydliadau cymunedol ac eraill, gan gynnwys cyrff cenedlaethol, ynghyd i ddylanwadu ar y llywodraeth a'r asiantaethau sy'n llywio ein bywydau.

Yr hyn rydyn ni'n ei ariannu
Rydym am gefnogi'r rheini sydd ag uchelgais i sicrhau newid cadarnhaol ar raddfa tra hefyd yn creu manteision i'r rhai sy'n gysylltiedig. Felly, byddwn yn canolbwyntio ein cyllid wrth ar fynd ar drywydd cymdeithas ffyniannus ar waith sy'n gwneud y **ddau** hyn:

1. ***Yn cynnwys y rhai sydd â phrofiad personol o'r mater sy'n cael sylw*** — gan adlewyrchu ein cred mai'r rhai sydd â phrofiad personol uniongyrchol o'r mater/materion sy'n eu deall orau ac y dylent fod â'r asiantaeth a'r gefnogaeth i ddefnyddio eu harbenigedd, eu dealltwriaeth a'u mewnwelediadau i yrru hyrwyddo gwaith y sefydliad. Rydym ni am iddyn nhw allu gwneud hyn mewn amgylchedd cefnogol sydd wedi ymrwymo i'w llwyddiant. Nid ydym yn disgwyl datgelu profiad personol unigolyn mewn ceisiadau, os nad yw'r wybodaeth hon eisoes yn hysbys i'r cyhoedd neu ar gael. Rydym ni hefyd yn gwerthfawrogi pwysigrwydd arbenigedd a mewnwelediad y rhai sy'n gweithio ochr yn ochr ag unigolion a chymunedau sydd â phrofiad personol.

   ac

2. ***Gwella systemau drwy bolisi, eiriolaeth ac ymgyrchu*** - drwy ddylanwadu ar newid a chynnydd ar y materion mae sefydliad yn ceisio mynd i'r afael â nhw a sicrhau'r hawliau sy'n ddyledus i'r unigolion y mae'n eu cefnogi. Gallai hyn gynnwys: casglu a defnyddio tystiolaeth; cysylltu pobl a'r sefydliad; creu cyfleoedd ar gyfer cyswllt, deialog ac ymgysylltu ystyrlon; neu ddylunio a dychmygu strategaethau a thactegau effeithiol ar gyfer dylanwadu; a defnyddio'r dulliau hyn i eirioli neu ymgyrchu dros wella polisïau, arferion a systemau.

Rydym yn disgwyl i amrywiaeth o unigolion a chymunedau sy'n profi amrywiaeth o annhegwch a gwahaniaethu elwa o'n cyllid. O ystyried y cynfas eang hon, rydym ni'n blaenoriaethu gwaith sy'n mynd i'r afael â'r rhwystrau mwyaf sy'n cael eu creu gan raniadau ac anghydraddoldeb. Rydym ni'n ceisio ariannu gwaith sy'n canolbwyntio'n benodol ar y budd ehangaf posibl ar draws gwahanol systemau, yn hytrach na darparu gwasanaethau.

Yr hyn rydyn ni'n edrych amdano
Sefydliadau:

- sydd wedi'u gwreiddio mewn profiad ymarferol ochr yn ochr â'u gwaith polisi
- sydd yn deall yr angen i feithrin hyder a sgiliau pobl fel eu bod yn barod i ymgysylltu ag eraill
- sydd yn gwerthfawrogi, hyrwyddo a dysgu o brofiad y rhai maen nhw'n eu cefnogi
- yn ymgysylltu â'r achos amhoblogaidd neu anodd

- sydd ceisio mynd i'r afael ag achosion yn ogystal â symptomau.

4. Yr hyn nad ydym yn ei ariannu

Nid ydym yn ystyried ceisiadau gan sefydliadau sydd:

- wedi gwneud cais yn aflwyddiannus o fewn y 12 mis blaenorol (yn seiliedig ar y dyddiad y cyflwynwyd y cais)
- yn canolbwyntio ar un maes meddygol, megis clefyd unigol, organ neu gyflwr
- yn ysbytai, hosbisau, ysgolion, colegau neu brifysgolion, oni bai bod y cais yn dod o uned arbenigol prifysgol flaenllaw. Mae rhagor o wybodaeth yn yr adran nesaf (Cwestiynau Cyffredin).

Ni wneir grantiau i nac at unrhyw un o'r dibenion canlynol:

- unigolion, gan gynnwys grantiau neu fwrsariaethau myfyrwyr
- apeliadau cyffredinol a gornest gron
- datblygiadau cyfalaf ac eitemau unigol o offer
- hyrwyddo crefydd neu addoldai
- sefydliadau a phrosiectau celfyddydol y mae eu prif ffocws yn cefnogi ac yn datblygu unigolyn, yn hytrach na phan fydd gwaith newydd yn rhan o raglen artistig
- dysgu a chymryd rhan yn y celfyddydau, lle mai dyma brif ffocws y cais
- cynlluniau hamdden neu wyliau unigol
- chwaraeon, lle mae hyn yn greiddiol i weithgareddau'r sefydliad
- addysg, megis mentrau sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm, prosiectau addysgol celfyddydol neu amgylcheddol
- lles anifeiliaid, canolfannau bridio caeth a/neu ganolfannau achub anifeiliaid fel prif bwrpas y gwaith
- ymchwil neu driniaeth feddygol, gan gynnwys gwasanaethau adsefydlu cyffuriau ac alcohol
- gweithio mewn carchardai a ddylai gael arian statudol ac nad yw'n mynd ar drywydd newid systemau ehangach
- ymgyrchoedd untro
- digwyddiadau untro, megis cynadleddau, tripiau, seminarau, dosbarthiadau meistr, ysgolion haf, comisiynau sengl neu gynyrchiadau
- dosbarthu ein cronfeydd fel grantiau ymlaen i sefydliadau eraill, oni bai ein bod wedi cytuno'n benodol i ymuno â chydweithrediad ariannwr lle bydd hyn yn digwydd.

5. Cwestiynau cyffredin

A wnewch chi gefnogi gwaith sy'n digwydd mewn un wlad yn y DU?
Rydym yn ariannu sefydliadau o unrhyw ran o'r DU y mae eu gwaith yn cael effaith ledled y DU.

Gellir ariannu gwaith sydd wedi'i leoli mewn gwledydd unigol lle:

- Mae'r gwaith o arwyddocâd i'r DU gyfan - er enghraifft, yr Alban sydd â'r amgylchedd morol mwyaf sylweddol yn y DU, neu oherwydd bod y gwaith mor rhagorol neu arloesol fel y bydd o ddiddordeb a pherthnasedd arbennig mewn rhannau eraill o'r DU; ***neu***
- Mae'r gwaith yn cwmpasu mwy nag un wlad yn y DU - a allai fod yn un sefydliad sy'n gweithio ar draws ffiniau neu bartneriaeth o sefydliadau mewn gwahanol wledydd; er enghraifft, byddai gweithgaredd yng Nghymru a Gogledd Iwerddon yn gymwys; ***neu***
- Mae'r sefydliad yn gweithio ar draws Lloegr (oherwydd bod ganddo'r gyfran uchaf o boblogaeth y DU).

Ydych chi'n gwneud grantiau dramor?
Mae ein categori Amgylchedd yn darparu grantiau ar gyfer gwaith yn Nhiriogaethau Tramor y DU, ac ar gyfer prosiectau morol y tu allan i ddyfroedd y DU gan elusennau'r DU.

Ar gyfer gwaith yn Nhiriogaethau Tramor y DU, rydym yn ariannu elusennau yn y DU sy'n gweithio yn yr UKOT, ac rydym ni hefyd yn hapus i dderbyn ceisiadau uniongyrchol gan elusennau sydd wedi'u cofrestru yn y Tiriogaethau, gan gynnwys drwy gwndidau yn y DU. Ein nod yw mabwysiadu ymagwedd gynnil a gwahaniaethu rhwng Tiriogaethau yn seiliedig ar eu systemau llywodraethu elusennau priodol.

Yn ymarferol mae hyn yn golygu'r canlynol:

- Bydd cyrff anllywodraethol sydd wedi'u cofrestru mewn Tiriogaethau â systemau llywodraethu elusennau wedi'u modelu yn y DU (**Bermuda, Ynysoedd Cayman, Gibraltar, a St Helena**) yn gallu gwneud cais yn uniongyrchol.
- Bydd elusennau sydd wedi'u cofrestru mewn Tiriogaethau sydd â systemau goruchwylio dielw sy'n canolbwyntio'n bennaf ar gyllid (**Anguilla, Ynysoedd Virgin Prydain, Montserrat, Turks & Caicos)** hefyd yn cael eu hystyried ar gyfer cyllid uniongyrchol. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau lefel ychwanegol o gydymffurfiaeth, bydd gofyn i gyrff anllywodraethol o'r Tiriogaethau hyn ddangos tystiolaeth eu bod wedi cael eu derbyn yn llwyddiannus fel y sefydliad arweiniol ar grant prosiect Darwin Plus Llywodraeth y DU.
- O ystyried yr ychydig iawn o lywodraethu elusennau lleol ni fyddwn yn derbyn ceisiadau am gyllid uniongyrchol gan gyrff anllywodraethol sydd wedi'u cofrestru yn **Ynysoedd y Falklands** yn unig a bydd yn gofyn i geisiadau gael eu gwneud trwy elusen sydd wedi'i chofrestru yn y DU.

Os nad yw'ch Tiriogaeth wedi'i rhestru, neu os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch y mecanwaith ymgeisio mwyaf priodol, mae croeso i chi gysylltu ag aelod o'r Tîm Grantiau am gyngor.

Nid yw Tiriogaethau Dibynnol ar y Goron beiliaethau Jersey a Guernsey sy'n ffurfio Ynysoedd y Sianel, ac Ynys Manaw yn rhan o'r Deyrnas Unedig. Felly nid yw sefydliadau sydd wedi'u cofrestru yn y Tiriogaethau Dibynnol ar y Goron yn gymwys.

Pryd ydych chi'n ariannu costau craidd a phryd mae'n well gennych ariannu prosiect?
Fel ariannwr ymatebol, rydym yn gwrando ar yr hyn rydych chi o'r farn sy'n bwysig. Ein prif ddiddordeb yw cefnogi sefydliadau y mae eu gwaith yn cyfateb i'n blaenoriaethau ariannu. Credwn mai cyllid craidd fel arfer yw'r cyfraniad mwyaf gwerthfawr y gallwn ei wneud. Os credwch mai grant prosiect fyddai orau, gallwch wneud cais am hynny yn lle.

Rydym yn ymwybodol y bydd grant craidd cymedrol yn cael effaith gyfyngedig ar gyllid sefydliadau mwy. Os yw eich trosiant yn agos at £10m y flwyddyn neu drosodd, efallai y byddai'n well gwneud cais am grant prosiect.

A oes rhaid i gais ffitio mwy nag un o'ch categorïau?
Na. Os ydych chi'n gwneud gwaith sy'n cyd-fynd â mwy nag un o'n categorïau, yna rhaid i'ch cais arddangos sut rydych chi'n chi'n cyfateb yn dda i feini prawf o leiaf un categori, gyda chysylltiad i un arall yn fonws.

Hefyd, nid oes rhaid i gais neu grant unigol ymwneud yn â phob un o dair elfen ein nod – ymwneud â phobl, cymdeithas a'r byd naturiol. Gallai grant amgylcheddol, er enghraifft, ganolbwyntio ar gynefin penodol, gyda'r buddion unigol a chymdeithasol ond yn dod i'r amlwg yn anuniongyrchol neu yn y tymor hwy.

A allaf wneud cais os yw ein hincwm yn is na £100,000?
Os yw eich incwm yn is na hyn, yna byddem yn disgwyl gweld tystiolaeth glir bod eich sefydliad wedi rheoli trosiant o £100,000 o'r blaen, neu ar y trywydd iawn i wneud hynny'n fuan. Bydd hyn fel arfer drwy gyfrifon rheoli sy'n dangos bod incwm dros £100,000 ar gyfer eich blwyddyn bresennol neu'r flwyddyn nesaf wedi'i sicrhau a'i gadarnhau. Ar ben hynny, os yw eich sefydliad ar ben isaf ein hystod trosiant, yna gofynnwn i chi ystyried eich cais i ni fel cyfran resymol o'ch trosiant cyffredinol. Os yw eich incwm yn is na £100,000 a'ch bod yn dymuno gwneud cais, rydym yn argymell eich bod yn cysylltu â ni am sgwrs ymlaen llaw.

A allaf wneud cais os yw ein hincwm yn uwch na £10m?
Os yw eich incwm yn fwy na hyn, byddwn ond yn ystyried grant os ydych chi mewn sefyllfa unigryw i helpu i gyflawni ein hamcanion ariannu. Rydym ni'n galw hyn yn brawf **'dim ond nhw all ei wneud'**. Nid yw hyn yn ymwneud â'r hyn mae eich sefydliad yn ei wneud sy'n unigryw, ond yn hytrach, sut y gall eich sefydliad gyflawni yn erbyn ein blaenoriaethau ariannu mewn ffordd na all eraill ei chyflawni. Os yw eich incwm yn uwch na £10m a'ch bod yn dymuno gwneud cais, rydym yn argymell eich bod yn cysylltu â ni am sgwrs ymlaen llaw.

Pa fath o ffurfiau celf ydych chi'n eu hariannu o dan eich categori 'Crewyr yn y Celfyddydau Perfformio'?
Rydym yn tueddu i ariannu sefydliadau sy'n gweithio ym myd dawns, cerddoriaeth, opera a theatr. Mae'r ffurfiau celf hyn wedi bod yn feysydd nodedig i ni ers amser maith ac er y gallwn gefnogi mathau eraill o gelf ar adegau, yn ymarferol mae hyn yn brin. Rydym hefyd yn blaenoriaethu sefydliadau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â chreu gwaith newydd neu waith wedi'i ail-ddychmygu, yn hytrach na gweithio drwy leoliadau partner, gwyliau neu sefydliadau eraill. Weithiau o dan amgylchiadau eithriadol rydym yn ariannu gwyliau oherwydd eu bod yn ymrwymo i greu a chyflwyno gwaith newydd neu waith wedi'i ail-

ddychmygu sydd â gwaddol y tu hwnt i'r ŵyl. Yn y pen draw, ein blaenoriaeth yw cefnogi creu gwaith o ansawdd uchel a deniadol.

Yn olaf, nid ydym yn canolbwyntio ar gefnogi gwaith o dan ein categori celfyddydol am ei werth addysgol neu fudd cymdeithasol yn unig — er ein bod yn cydnabod bod y ddau hyn yn fuddion ychwanegol cadarnhaol. Rydym yn disgwyl i ymgeiswyr ddangos eu rhagoriaeth artistig drwy roi tystiolaeth i ni o adborth, gwobrau ac anrhydeddau cadarnhaol gan gynulleidfaoedd ac adolygiadau proffesiynol.

Pryd fyddwch chi'n ariannu ymchwil?
Rydym yn cydnabod y gall ymchwil drylwyr a dadansoddi polisi ddarparu'r dystiolaeth a'r dadleuon i eirioli dros newidiadau pwysig mewn ymarfer. Mae'n well gennym ariannu'r math hwn o waith os yw wedi'i wreiddio mewn profiad bywyd go iawn, yn cynnwys lleisiau'r rhai sy'n cael eu heffeithio, a'i fod yn debygol o wneud gwahaniaeth ymarferol. Wrth ystyried cynigion o'r fath, bydd eich hanes, eich arbenigedd, eich gwybodaeth am y cyd-destun a'r ddealltwriaeth o sut i weithredu newid o'r fath yn ystyriaethau pwysig.

Ydych chi'n ariannu prifysgolion?
Nid fel arfer, ac nid ar gyfer eu gwaith craidd. Fel eithriad, efallai y byddwn yn ystyried cais gan uned arbenigol os ydych chi'n ganolfan ragoriaeth ac yn flaenllaw yn eich maes. Dylai eich gwaith:

- fod yn arbennig ac yn debygol o wneud gwahaniaeth ymarferol
- cynnwys partneriaethau gydag elusennau neu gyrff anllywodraethol
- meddu ar gyllideb nad yw'n cynnwys unrhyw gyfraniad i orbenion canolog
- cyfateb yn gryf i'n buddiannau ariannu.

Am ba hyd y byddwch yn gwneud grant?
Mae'r rhan fwyaf o'n grantiau am ddwy neu dair blynedd, ond fel ariannwr ymatebol a hyblyg rydym yn barod i ystyried amserlenni gwahanol. Mae'r Tîm Grantiau wrth law i ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych yn hyn o beth. Fel y soniwyd uchod, i gael syniad o'r math o grantiau rydym wedi'u dyfarnu yn y gorffennol, edrychwch ar y rhestr grantiau ar ein gwefan neu ar 360Giving.

Pryd yw'r amser gorau i mi wneud cais? Oes gennych chi unrhyw derfynau amser?
Ar gyfer y rhan fwyaf o geisiadau nid oes terfynau amser a gallwch wneud cais ar unrhyw adeg. Rydym ni'n gwneud penderfyniadau'n rheolaidd drwy gydol y flwyddyn. Mae crynodeb o sut mae ein ceisiadau yn cael eu prosesu, a faint o amser mae hynny'n ei gymryd ar gael yma ar ein gwefan.

Mae gan rai meysydd gwaith, megis y Gronfa Amgueddfeydd ac Orielau, derfyn amser ymgeisio blynyddol. Edrychwch ar y wefan i gael rhagor o wybodaeth am y rhain.

Pa mor gyflym y byddaf yn gwybod beth yw eich penderfyniad?
Byddwn yn cydnabod eich cais o fewn wythnos.

Mae gennym broses ymgeisio dau gam. Ein nod yw ymdrin â'r holl geisiadau cam cyntaf o fewn un i ddau fis. Ar yr achlysur prin y bydd cais yn cymryd mwy o amser, byddwn mewn cysylltiad.

Gofynnir i ymgeiswyr ail gam gyflwyno eu ffurflen ail gam o fewn mis o gael eu gwahodd i wneud hynny. Dylech gael penderfyniad o fewn tri mis ar y mwyaf.

Pryd alla i ailymgeisio os ydw i wedi cael fy ngwrthod?
Blwyddyn o ddyddiad cyflwyno'ch cais.

Pryd alla i ailymgeisio os oes gen i grant? Ydych chi'n darparu cyllid parhad?
Yn y gorffennol, gofynnwyd i'r rhai oedd wedi derbyn grant i aros am flwyddyn ar ôl i'w grant ddod i ben cyn dod yn ôl gyda chais newydd am gyllid. Fodd bynnag, mae ein profiad o ddarparu cyllid yn ystod pandemig Covid-19 yn golygu ein bod wedi diddymu'r angen i sefydliadau rydym ni'n eu hariannu gymryd seibiant cyn ailymgeisio gyda ni. Gall deiliaid grantiau presennol bellach ailymgeisio hyd at dri mis cyn dyddiad gorffen eu grant.

A allaf drafod fy nghais gyda chi cyn i mi wneud cais?
Rydym bob amser yn hapus i drafod ceisiadau posibl. Cyn i chi gysylltu, darllenwch ein canllawiau.

Oes rhaid i ni fod yn elusen gofrestredig i wneud cais?
Byddwn ond yn gwneud grantiau i elusennau cofrestredig, eithriedig neu esempt. Fodd bynnag, byddwn weithiau'n gwneud eithriad os yw'r sefydliad yn cyflwyno achos clir dros pam na allant gyflawni ei ddiben elusennol drwy fformat yr elusen. Yn ymarferol, mae hyn yn berthnasol yn bennaf i weithgareddau polisi, eiriolaeth ac ymgyrchu o dan y categorïau Gweithredu Cymdeithasol a'r Amgylchedd. Byddai angen i ni weld tystiolaeth o wrthrychau elusennol, clo asedau, a llywodraethu cadarn.

Ydych chi'n derbyn ceisiadau gan sefydliadau sy'n cael eu cynnal yn gyllidol?
Rydym ni yn derbyn ceisiadau gan sefydliadau a gynhelir yn gyllidol sy'n bodloni ein holl feini prawf ariannu eraill. Mae hyn yn cynnwys bod ag incwm o £100,000 neu fwy yn benodol ar gyfer eich sefydliad neu grŵp (yn hytrach nag incwm cyfanredol y gwesteiwyr cyllidol). Rydym ni hefyd yn gofyn i sefydliadau a gynhelir yn gyllidol esbonio pam eu bod wedi mabwysiadu'r model hwn. Os cewch eich gwahodd i'r ail gam, efallai y byddwn yn gofyn am gyfarfod â'r sefydliad cynnal fel rhan o'r broses.

A oes angen i'n cyfrifon gael eu harchwilio gan archwilydd annibynnol?
Rhaid i'ch cyfrifon gadw at ganllawiau'r Comisiwn Elusennau, ac felly os gallwch chi gyflwyno cyfrifon sydd wedi cael eu hadolygu gan arholwr annibynnol, yna byddwn yn derbyn y rhain hefyd. Os nad ydych chi'n elusen gofrestredig, yna rhaid adolygu eich cyfrifon yn unol â'r prosesau sydd ar waith ar gyfer eich math o sefydliad.

Beth mae'n ei olygu pan ddywed y Sefydliad eu bod yn ariannwr Cyflog Byw?
Rydym yn Ariannwr Sy'n Gyfeillgar i Gyflogau Byw, sy'n golygu ein bod wedi ymrwymo i fynd i'r afael â chyflog isel drwy annog y sefydliadau rydym yn eu cefnogi i dalu'r Cyflog Byw go iawn. Gallwch gael rhagor o wybodaeth am y Cyflog Byw yma.

Rydym am gefnogi derbynwyr ein grantiau i dalu'r Cyflog Byw i'w gweithwyr fel yr amlinellir uchod. Ystyriwch hyn wrth wneud cais am gyllid i dalu am gyflogau yn eich cynigion. Efallai y bydd y Tîm Grantiau yn awgrymu newidiadau i gyllidebau lle credwn nad yw'r Cyflog Byw yn cael ei gynnig.

Beth allaf ei wneud os ydw i'n anhapus ynglŷn ag unrhyw gam o'r broses ymgeisio?
Rydym ni am i sefydliadau a'r unigolion sy'n cyflwyno ceisiadau gysylltu â ni os oes ganddyn nhw adborth ar ein proses ymgeisio a allai arwain at welliannau. Mae gennym ni hefyd Bolisi Cwynion y gallwch chi ei ddefnyddio os hoffech chi wneud cwyn, sydd ar gael ar ein gwefan. Mae cwynion yn cael eu rheoli gan ein Uwch Reolwr Grantiau. Ar ben hynny, bob dwy neu dair blynedd rydym ni'n cynnal archwiliad a gomisiynwyd yn annibynnol o'n proses ymgeisio sy'n cael ei anfon at bob ymgeisydd a deiliad grant - mae hyn yn cynnig adolygiad o'n proses ymgeisio hefyd.

Am ba hyd y bydd yn rhaid i ni aros cyn derbyn arian ar ôl i gynnig gael ei gymeradwyo?
Ein nod yw dosbarthu taliad cyntaf grant cyn gynted â phosibl ar ôl derbyn a chymeradwyo'r manylion banc gofynnol fel y nodir yn y llythyr cynnig. Yr unig adeg y caiff hyn ei ohirio yw os oes amodau ar y grant, er enghraifft: mae'r grant yn daladwy wrth recriwtio i rôl.

Pwy sy'n gwneud y penderfyniadau ar wahanol gamau'r broses ymgeisio?
Mae'r Tîm Grantiau yn cynnal gwiriadau cymhwysedd syml pan gyflwynir cais a gallant wrthod cynigion ar y pwynt hwn os nad ydynt yn pasio'r profion hyn. Ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am yr holl benderfyniadau ar y cam cyntaf a'r ail gam ac fe'u cynorthwyir gan y Tîm Grantiau yn gwneud y penderfyniadau hyn.

Pa wybodaeth sydd ei hangen arnaf i wneud cais?
Gallwch weld yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnom ar gyfer ein ceisiadau cam cyntaf ac ail gam yn y ddogfen ganllaw hon.

A allaf gynnwys hyperddolenni a / neu ddelweddau yn fy nghais?
Gallwch gynnwys rhai hyperddolenni i wybodaeth atodol sy'n cefnogi'r hyn yr ydych chi wedi cyfeirio ato yn eich cais. Rydym ni'n eich annog i gynnig rhywfaint o gyd-destun ar gyfer yr hyperddolenni, gan efallai na fyddwn yn gallu darllen y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y wybodaeth sydd yn yr hyperddolenni'n llawn. Gellir defnyddio delweddau hefyd, ond nodwch y bydd angen cynnwys y delweddau hyn fel rhan o'r terfyn dwy dudalen a osodwyd gennym ar gyfer cais cam cyntaf.

Ydych chi'n gofyn i ymgeiswyr am wybodaeth am Amrywiaeth, Tegwch a Chynhwysiant?
Ydym. Rydym ni wedi mabwysiadu'r Safon Amrywiaeth, Tegwch a Chynhwysiant (DEI), sy'n golygu ein bod yn gofyn i ymgeiswyr ddarparu gwybodaeth am DEI fel rhan o'u cais cam cyntaf. Cynhyrchwyd Safon Data DEI gan grŵp o gyllidwyr elusennol, gan gynnwys ni, a gallwch ddarganfod mwy am y gwaith hwn yma.

Rydym ni'n gofyn y cwestiynau hyn i gael gwell dealltwriaeth o'r mathau o sefydliadau sy'n gwneud cais i ni ac rydym ni'n mynd ymlaen i'w hariannu. Sylwch **na fydd** y wybodaeth a ddarperir yn cael ei defnyddio fel rhan o'n penderfyniadau. Nid oes barn na dewis ar gyfer ymatebion penodol. Mae gan ymgeiswyr hefyd yr opsiwn o ddewis 'gwell peidio â dweud' ar gyfer yr adran hon o'r cais.

Ydych chi'n cynnig cymorth mynediad?
Rydym yn hapus iawn i drafod unrhyw anghenion mynediad sydd gennych chi. Gweler ein hadran 'Sut i ymgeisio' am fwy o fanylion, neu estyn allan i beth@ellerman.org.uk.

6. Sut i wneud cais

Faint alla i wneud cais amdano?
Ar ein prif raglen grantiau, yn gyffredinol rydym ni'n gwneud grantiau rhwng £10,000 a £50,000 y flwyddyn, am hyd at dair blynedd. Y llynedd, roedd ein grantiau yn y categorïau Celfyddydau, yr Amgylchedd a Gweithredu Cymdeithasol yn amrywio o £30,000 i £150,000 a maint cyfartalog y grant oedd tua £106,000. I gael syniad o'r mathau o grantiau rydym yn eu dyfarnu, edrychwch ar y rhestr grantiau ar ein gwefan neu ar 360Giving.

Cyn i chi wneud cais
Cyn i chi wneud cais, gwnewch yn siŵr eich bod wedi darllen ein canllawiau ariannu yn ofalus i sicrhau bod eich sefydliad yn gymwys a bod eich gwaith yn bodloni ein blaenoriaethau ariannu.

Rydym yn derbyn llawer mwy o geisiadau nag y gallwn eu hariannu. Yn anffodus, mae hyn yn golygu, hyd yn oed os yw eich gwaith yn cyfateb i'n meysydd diddordeb, efallai na fyddwn yn gallu gwneud grant. Os nad ydych chi'n llwyddiannus, byddwn yn gofyn i chi aros am flwyddyn o'r dyddiad y gwnaethoch chi gyflwyno'ch cais blaenorol cyn i chi ailymgeisio.

Mae dau gam i'r broses ymgeisio:

Cam 1

1. Llenwch gynnig dwy dudalen A4 gan ddefnyddio maint ffont 10/11 o leiaf gyda'r penawdau canlynol:
   - Crynodeb byr o nodau a gweithgareddau eich sefydliad
   - Sut mae eich cynnig yn bodloni ein gofyniad bod y gwaith o arwyddocâd cenedlaethol
   - Yr hyn yr hoffech i ni ei ariannu a pham yr ydych mewn sefyllfa dda i wneud y gwaith hwn
   - Sut mae eich cynnig yn cyd-fynd â'r meini prawf ar gyfer y categori perthnasol rydych yn gwneud cais oddi tano

2. Gofynnir i chi uwchlwytho'r dogfennau ariannol canlynol ochr yn ochr â'r cais:
   - Eich cyfrifon ariannol (drafft neu gyhoeddedig) o'r flwyddyn ariannol flaenorol.
   - Eich cyfrifon rheoli ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol.
   - Os yw eich cyfrifon yn dangos gwarged neu ddiffyg sylweddol, cronfeydd wrth gefn uchel neu isel y tu allan i'ch polisi cronfeydd wrth gefn, byddwn yn gofyn i chi roi esboniad byr.

3. Mae ein porth ar-lein ar gael drwy ein gwefan, a gallwch greu cyfrif ar-lein (yma). Drwy eich cyfrif ar-lein gallwch wedyn uwchlwytho eich cynnig cam cyntaf a gwybodaeth ariannol.

   Rydym yn gwneud penderfyniadau ariannu drwy gydol y flwyddyn felly gallwch wneud cais ar unrhyw adeg. Fodd bynnag, os ydych yn gwneud cais i'r Gronfa Amgueddfeydd ac Orielau mae dyddiad cau blynyddol a phroses ymgeisio ar wahân, felly edrychwch ar ein gwefan am fanylion.

   Unwaith y byddwch wedi creu eich cyfrif ar-lein ac wedi uwchlwytho eich cais cam cyntaf byddwch yn derbyn cadarnhad ar unwaith. Byddwn yn cysylltu â chi o fewn pythefnos i roi gwybod i chi a yw eich cynnig yn gymwys.

Cam 2

Os bydd eich cais yn mynd ymlaen i'r ail gam, byddwn yn gofyn am gynnig manylach a gwybodaeth ychwanegol. Yna byddwn yn trefnu i gwrdd â chi i gael gwybod mwy am eich gwaith.

Yn yr ail gam hwn, ein nod yw gwneud penderfyniad o fewn tri mis. Os bydd eich cais yn cymryd mwy o amser, byddwn mewn cysylltiad.

Cymorth mynediad
Gofynnwn i bob ymgeisydd gyflwyno cais ysgrifenedig dwy dudalen, a all fod ar ffurf Word neu PDF. Fodd bynnag, os oes gennych chi angen mynediad penodol sy'n ei gwneud yn anodd cyflwyno fel hyn, cysylltwch â ni a byddwn yn hapus i drafod gwneud addasiadau rhesymol i'r broses. Mae hyn yn cynnwys os ydych chi'n cael trafferth llywio'r porth ar-lein. I gefnogi ymgeiswyr, rydym ni wedi rhannu copïau o'r ffurflen gais cam cyntaf ac ail gam yma. Nod y rhain yw bod yn gydnaws ag offer hygyrchedd, ond os hoffech dderbyn fersiwn mewn fformat gwahanol, cysylltwch â ni. Ar gyfer pob ymholiad o'r fath, cysylltwch â beth@ellerman.org.uk.

Rydym ni wrthi'n ceisio gwella ein hygyrchedd ac yn croesawu unrhyw adborth mewn perthynas â hyn. Gallwch weld mwy o fanylion am ein dull o hygyrchedd yn ein Datganiad Hygyrchedd ac yn ein Blog.

Cyngor pellach
Os nad ydych yn siŵr a ydych am wneud cais neu os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch am y broses ymgeisio, ffoniwch ni ar 020 7451 1472 neu e-bostiwch beth@ellerman.org.uk. Rydym ni'n hapus i gynnig cyngor ar geisiadau dros y ffôn, galwad fideo neu e-bost.

Gallwch ddod o hyd i fanylion llawn dau gam ein proses ymgeisio yma.